**Pwyllgor Diwylliant – CC-13-01(p.2)**

**Dyddiad:** 18 Gorffennaf 2001

**Amser:** 9am – 12.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## ADOLYGIAD O'R IAITH GYMRAEG: ADRODDIAD AR GYNNYDD

### Cyflwyniad

1. Mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r cynnydd yn ystod tri mis cyntaf yr adolygiad o bolisi'r Gymraeg; yn amlygu'r materion allweddol sydd wedi codi; ac yn edrych ymlaen at y trafodaethau sy'n weddill gan y Pwyllgor.

### Cynnydd hyd yma

2. Cychwynnodd yr adolygiad ar 2 Mai. Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod bedair gwaith, gyda dau gyfarfod yn cael eu cynnal yn Aberystwyth a Dinbych. Mae'r Pwyllgor wedi elwa o glywed ystod o safbwyntiau oddi wrth Awdurdodau Lleol, cyrff cyhoeddus, mudiadau ieuenctid, sefydliadau sy'n ymwneud â rhai agweddau ar yr iaith, academyddion, ac oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol ynghylch y sefyllfa gyfreithiol bresennol o ran yr iaith. Cafwyd sesiynau agored hefyd yn y ddau gyfarfod ar y ffordd. Hyd yma mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth oddi wrth 17 o sefydliadau ac unigolion. Mae ymgynghoriad ysgrifenedig hefyd ar y gweill (CC-7-01 (p1)) a gofynnwyd i dros 700 o sefydliadau ac unigolion gyflwyno'u safbwyntiau erbyn diwedd mis Gorffennaf.
3. Yn y cyfarfod cyntaf, cytunodd y Pwyllgor y dylid gofyn am farn y pwyllgorau pwnc eraill er mwyn cael darlun mor eang â phosibl. Gofynnwyd i'r pwyllgorau eraill gynnwys yr adolygiad ar eu hagendâu yn y dyfodol. Yn yr un modd, gofynnwyd i'r pwyllgorau rhanbarth ofyn am sylwadau ar yr adolygiad. Byddai hyn, ynghyd â'r cyfarfodydd ar y ffordd, yn rhoi cyfle i gymaint o bobl ag sy'n bosibl gyflwyno'u sylwadau'n uniongyrchol i'r Cynulliad. Hyd yma, cynhaliwyd sesiwn gan Bwyllgor Rhanbarth y De Orllewin yn ei gyfarfod yn Abergwaun ym mis Gorffennaf.

### Themâu a Materion a Godwyd

4. Er mai dim ond 5 cyfarfod sydd wedi'u cynnal hyd yma, mae rhai themâu cyffredin wedi'u hamlygu ymhlith y materion niferus sydd wedi codi. Y thema amlycaf yw effaith mewnfudo ac allfudo ar y Gymraeg. Mae nifer o'r cyflwynwyr wedi honni bod mewnfudiad pobl ddi-Gymraeg ac allfudiad pobl leol yn ffactorau allweddol a arweiniodd

at ddirywiad yr iaith yn yr ugeinfed ganrif. Rhoddwyd sawl rheswm dros hyn. Roedd twristiaeth yn un ffactor a oedd yn denu'r di-Gymraeg i Gymru tra bo polisïau a phrisiau tai a phrinder swyddi yn rhesymau dros beri i bobl adael. Mae hyn wedi arwain at alw am newid ym mholisïau a blaenoriaethau tai ac economïau lleol. Roedd nifer hefyd yn teimlo y dylid cryfhau'r system gynllunio er mwyn atal dirywiad cymunedau Cymraeg. Teimlai eraill y gellid cyflawni hynny trwy wneud y system bresennol yn fwy effeithiol.

5. Diffyg data diweddar a'r angen dirfawr am ymchwil oedd wrth wraidd llawer o'r dadleuon. Roedd pobl yn teimlo na fyddai canlyniadau Cyfrifiad 2001 yn cael eu cyhoeddi am beth amser ac nad oedd disgwyl y byddent yn ddibynadwy.
6. Thema arall a gododd dro ar ôl tro oedd yr angen i'r Gymraeg gael ei gweld fel rhan annatod o fywyd bob dydd yn hytrach nag fel mater 'diwylliannol' ar wahân. Roedd rhai'n teimlo bod llawer o sefydliadau, gan gynnwys y Cynulliad, yn ystyried bod buddsoddi mewn cyfieithu'n gyfystyr â buddsoddi yn y Gymraeg, ac y byddai angen i hynny newid os oedd yr iaith am gael ei 'normaleiddio'.
7. Gwnaeth sawl un sylwadau eraill ynghylch rôl y Cynulliad, gan alw arno i ddangos mwy o arweiniad o ran yr iaith a datblygu strategaeth i atal ei dirywiad a hyrwyddo'i datblygiad.
8. Cafwyd ymateb cymysg i'r angen am Ddeddf Iaith newydd. Yn ôl cyngor y Cwnsler Cyffredinol, nid oes galw mawr am ddeddfwriaeth newydd, ond cyn y gellir mynegi barn bendant dylid profi potensial y ddeddf bresennol. Roedd eraill o'r farn bod angen deddfwriaeth newydd; credai un o'r cyfranwyr y dylid cael Deddf Iaith gryfach a fyddai'n cydnabod amrywiadau rhanbarthol yn narpariaeth yr iaith.
9. Mae rhestr o'r sefydliadau y cyfarfuwyd â hwy hyd yma yn Atodiad A.

**Y Camau Nesaf**

10. Mae cynllun prosiect diwygiedig wedi cael ei baratoi (Atodiad B) sy'n cynnwys ceisiadau ychwanegol i roi tystiolaeth yn uniongyrchol ger bron y Pwyllgor. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi rhai o nodweddion y cynllun. Yn gyntaf, bod dwy daith allanol wedi'u trefnu yn y Flwyddyn Newydd ym Mhontypridd a Cross Hands. Cynigwyd y dylai'r cyfarfod yn Cross Hands gael ei gynnal ar y cyd â'r Pwyllgor Addysg, a'i leoli mewn ysgol gyda chyflwyniadau oddi wrth ddisgyblion. Cynigwyd hefyd y dylid neilltuo'r cyfarfod ar 5 Rhagfyr ar gyfer materion tai a chynllunio'n bennaf gan eu bod yn effeithio ar fewnfudo ac allfudo, ac y dylid gwahodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i ymuno yn y drafodaeth.
11. Yn olaf, awgrymir y dylai'r sesiwn dystiolaeth ddiwethaf gael ei chynnal ar 20 Chwefror gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Wedi hynny, bydd y Pwyllgor yn gwerthuso'r dystiolaeth ac yn llunio casgliadau erbyn mis Mai 2002.
12. Ochr yn ochr â thrafodaethau'r Pwyllgor ei hunan, bydd y Pwyllgor Addysg yn adolygu elfennau addysg statudol (gan gynnwys addysg uwch) yr adolygiad. Mae Pwyllgorau eraill, gan gynnwys y Pwyllgorau Rhanbarth, hefyd yn bwriadu cynnal cyfarfodydd ynghylch yr iaith a bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cadarnhau'r rhain yn ystod y toriad.
13. Tasg arall yn ystod yr haf fydd dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig.

**Casgliadau**

14. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi a thrafod yr asesiad o’r materion allweddol sydd wedi codi hyd yma yn yr adolygiad; a’r cynllun prosiect diwygiedig.

**Tystiolaeth lafar:** **Atodiad A**

02-05

Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Rhodri Williams

John Walter Jones

Yr Athro Colin Williams

Yr Athro Colin Baker

16-05

Dr Mark Tewdwr-Jones (Coleg y Brifysgol, Llundain)

Dr Dylan Phillips (Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Aberystwyth)

Yr Athro Colin Williams (Prifysgol Caerdydd)

24-05

Winston Roddick QC, Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol

06-06

Urdd Gobaith Cymru – Jim O’Rourke

Cyngor Llyfrau Cymru– Geraint Lewis

CYD – Jaci Taylor, Felicity Roberts

Cyngor Sir Ceredigion – Cyngh Peredur Eckland, Denver Morgan

Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Dr Rhidian Griffiths

Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru – Gareth Evans Jones

04-07

Cefn – Eleri Carrog

Popeth Cymraeg – Ioan Talfryn

Y Ganolfan Iaith Genedlaethol – Aled Jones Griffiths

Cyngor Sir Gwynedd – Dafydd Iwan

Cyngor Sir Ddinbych – Gwyneth Kensler

Fforwm Dwyieithrwydd Gogledd Cymru – Melangell Tegid

06-07- Pwyllgor Rhanbarth y De-Orllewin

Peter Doran, Cyfarwyddwr Theatr y Torch, Aberdaugleddau

Rhian Daniels, Disgybl yn Ysgol y Preseli, Crymych

Mari Grug Davies, Disgybl yn Ysgol y Preseli, Crymych

Mari Williams, Disgybl yn Ysgol Uwchradd Abergwaun

Lucy Bowyer, Disgybl yn Ysgol Uwchradd Abergwaun

Dr Chris Llywelyn, Cyngor Defnyddwyr Cymru

Nic Wheeler, Prif Weithredwr/Swyddog Parc Cenedlaethol, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

**Tystiolaeth Ysgrifenedig Ffurfiol**

Bwrdd yr Iaith Gymraeg – Papur CC-7-01 (P.2)

Dr Mark Tewdwr-Jones – Papur CC-8-01 (P.3)

Dr Dylan Phillips – Papur CC-8-01 (P.4)

Urdd Gobaith Cymru – Papur CC-10-01 (P.1)

Cyngor Llyfrau Cymru – Papur CC-01-01 (P.2)

Cyngor Sir Ceredigion – papur interim wedi'i dderbyn

Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Papur CC-10-01 (P.3)

Cefn

Popeth Cymraeg

Y Ganolfan Iaith Genedlaethol

Cyngor Sir Gwynedd – Papur CC-12-01 (P.2)

Cyngor Sir Ddinbych – Papur CC-12-01 (P.1)

Fforwm Dwyieithrwydd Gogledd Cymru

Peter Doran, Theatr y Torch – SWWR 04-01 (P1.a)

Dr Chris Llywelyn, Cyngor Defnyddwyr Cymru – SWWR 04-01 (P1.b)

Nic Wheeler, Prif Weithredwr/Swyddog Parc Cenedlaethol, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro – SWWR 04-01 (P1.c)

**Atodiad B**

**AMSERLEN PROSIECT YR ADOLYGIAD O'R IAITH GYMRAEG –**

**TYMOR YR HYDREF/GAEAF**

**(DS: Bydd angen ychwanegu gweithgareddau posibl y pwyllgorau rhanbarth at y rhestr hon)**

| Dyddiad y cyfarfod (ar fore dydd Mercher) | Gweithgarwch | Lleoliadau/mudiadau a fydd yn bresennol |
|---|---|---|
| 24 Hydref | Ar y ffordd | Abertawe<br><br>Neuadd Brangwyn<br><br>Mentrau Iaith<br><br>Merched y Wawr<br><br>Mudiad Ysgolion Meithrin<br><br>Cyngor Sir Abertawe<br><br>Cyngor Sir Penfro<br><br>CYTUN<br><br>[Cynrychiolydd o Brifysgol Abertawe] |
| 7 Tach | Cyflwyniadau a chwestiynau | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br><br>Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol<br><br>Biwro Ewropeaidd Ieithoedd Llai eu Defnydd<br><br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru<br><br>Dr Simon Brooks<br><br>[Dr Tim Williams]<br><br>Eitemau pendant eraill:<br><br>**Adroddiad y Gweinidog** |

| | | |
|---|---|---|
| 15 Tach | Ar y ffordd | Casnewydd<br><br>Awdurdod Datblygu Cymru<br><br>Bwrdd Croeso Cymru<br><br>Menter a Busnes<br><br>CBI Cymru<br><br>TUC Cymru<br><br>David Davies AC<br><br>Cynllun Gwobrau Dug Caeredin |
| 21 Tach | Cyflwyniadau a chwestiynau | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br><br>Cydffederasiwn NHS Cymru<br><br>Ffederasiwn y Busnesau Bach<br><br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br><br>ELWA<br><br>Eitemau pendant eraill:<br><br>**Strategaeth Ddiwylliant** |
| 5 Rhag | Cyflwyniad a chwestiynau | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br><br>[Cyfarfod teiran posibl gyda’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth]<br><br>Eitemau pendant eraill:<br><br>**Adroddiad y Gweinidog** |

| | | |
|---|---|---|
| 9 Ion 2002 | Cyflwyniad a chwestiynau | BBC Cymru<br><br>S4C<br><br>Golwg (Dylan Iorwerth)<br><br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br><br>Mercator<br><br>Cylch yr Iaith<br><br>(a bydd y Pwyllgor yn trafod yr adolygiad hyd yma) |
| 23 Ionawr | Ar y ffordd - Pontypridd | CS Rhondda Cynon Taf<br><br>Mr Roy Thomas |
| 6 Chwefror | Ar y ffordd – Cross Hands | Iaith Cyf<br><br>Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | | |
| 20 Chwefror | | Sesiwn gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| Mawrth - Mai 2002 | Trafod, dadansoddi, gwerthuso a llunio’r adroddiad | |